Fruiting Bodies

Proffil y Cwmni

Mae Fruiting Bodies, ym Methlehem, Llandeilo, yn rhan o grŵp Red Pig Farm. Mae gan Red Pig Farm 30 hectar o dir ar ochrau gorllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er 2004, mae'r tir wedi'i ddatblygu yn gartref i glwstwr unigryw o fusnesau gwledig a fyddai'n dangos gwerth coetiroedd llydanddail brodorol yn y Deyrnas Unedig.

> *Mae BEACON wedi arbed amser a chostau i'n busnes, ac wedi ychwanegu gwerth ato.*
>
> Richard Edwards
> CEO at Fruiting Bodies

Mae Fruiting Bodies wedi bod yn datblygu echdyniadau madarch syml ers dros ddeng mlynedd. Tyfant amrywiaeth o fadarch ar flawd llif a boncyffion pren caled, sydd yna'n cael eu sychu i'w cynaeafu. Yna, caiff y madarch sych eu mudferwi'n araf mewn dŵr hidledig. Mae'r potes sy'n deillio o hynny'n cael ei grynodi a chaiff ei ychwanegu at alcohol grawn organig. Tintur yw'r cynnyrch terfynol, sy'n cael ei ddefnyddio fel atchwanegiad bwyd.

Cydweithio â BEACON

Achosodd newidiadau diweddar mewn rheoliadau gan yr MHRA (Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd) anawsterau i Fruiting Bodies a'r Prif Weithredwr, Richard Edwards, gan arwain at ostyngiad yn nhrosiant blynyddol Fruiting Bodies.

Detholiad o fadarch yn tyfu yn Fruiting Bodies ©

Ystyriodd Richard amrywiaeth o atebion posibl ond nid oedd ganddo'r adnoddau i'w gweithredu. Yn ddiweddarach, daeth ar draws BEACON drwy'r cyfrwng cymdeithasol proffesiynol, LinkedIn.

Cysylltodd Richard â BEACON ac yn fuan wedi hynny cafodd gyfarfodydd gyda'r rheolwr datblygu busnes, Mike Morris. Ar ôl nifer o drafodaethau ynghylch atebion posibl, dechreuodd Fruiting Bodies gydweithio â BEACON. Daethpwyd ag echdyniadau madarch a pharatoadau sych yn ôl i gyfleusterau uwchraddio BEACON yn Aberystwyth er mwyn cynnal asesiad proffilio a gweithgarwch unigryw.Mae'r canlyniadau wedi dangos rhai canfyddiadau diddorol. Bellach, mae Fruiting Bodies wrthi'n dechrau prosiect cydweithredol newydd gyda BEACON sy'n cynnwys gwneud dadansoddiadau pellach, yn y gobaith o ddarganfod amryw fuddion newydd i iechyd na ddarganfuwyd yn flaenorol mewn madarch.

MUSHROOM fruiting bodies™ EXTRACTS

I gael mwy o wybodaeth am fenter Fruiting Bodies, ewch i www.fruiting-bodies.co.uk